Cardiff Council Update: 25th August

Welcome to the latest update from Cardiff Council, covering: The latest news that there has been an increase in COVID-19 cases in Cardiff and the Vale of Glamorgan, a call out to the public to give their views on cycle parking in the city centre and news that Foster Care Cardiff are sponsoring Pride Cymru's Big Online Week 2020.

Increase in COVID-19 cases in Cardiff and the Vale of Glamorgan

There has been a rise in recent days in the average number of positive COVID-19 cases within Cardiff and the Vale of Glamorgan, with a marked increase within Cardiff itself.

The current infection rate for Cardiff and the Vale of Glamorgan stands at 10.9 per 100,000, the highest it's been since early June.

Although daily fluctuations in the figures are to be expected, the number of new cases in Cardiff has, over the past 7 days, risen to 14.0 per 100,000 of the population.

This increase has seen local case numbers shift from being significantly below the average in England to above it (the average in England 11.9 per 100,000 on 18 August).

Within this, the rate of tests coming back as positive has also increased from 0.3% at the start of August to 2.5% on 22 August.

The latest figures, shared by the Cardiff and Vale Test, Trace, Protect partnership, also show an increase in cases amongst adults in their 20s and 30s.

Read more here: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24592.html

We want your views for cycle parking in Cardiff

With more people choosing to cycle in Cardiff, the Council is carrying out a review of cycle parking in the city centre, to access the existing provision as well as identify new locations for people to safely lock up their bike.

To assist the Council in this review, a short survey has been produced so that the public can give their views - https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=159653503505

Earlier this year, the Council's set out our transport vision for the city through the Transport White Paper. A key part of this vision is to improve the infrastructure for both cycling and walking.

As well as providing safe routes for cyclists to travel, adequate cycle parking has to be provided to give confidence to cyclists that they will be able to park their bike safely when they arrive at their destination.

All feedback received through the survey will be assessed and will inform the review that is taking place.
To fill in the survey, please click the following link:
https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=159653503505

Foster Care Cardiff are proud to support Pride Cymru's Big Online Week 2020

Foster Care Cardiff are sponsoring Pride Cymru's Big Online Week 2020 (24-30 August) with this year's event focused on the theme 'Your Pride'.
Due to COVID-19 government guidelines Pride Cymru will not be taking place as normal but will continue to celebrate diversity through a series of online collaborations and events to raise awareness around topics affecting LGBT+ people across Wales. Visit Pride Cymru for further information.
Read more here: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24595.html

Diweddariad Cyngor Caerdydd: 25 Awst

Croeso i'r ddiweddariad diweddaraf gan Gyngor Caerdydd, yn cwmpasu: Y newyddion diweddaraf bod cynnydd yn nifer yr achosion o COVID-19 yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, galw ar y cyhoedd ddweud eu barn am barcio beiciau yng nghanol y ddinas a'r newyddion mai Gofal Maeth Caerdydd sy'n noddi Wythnos Fawr Ar-lein Pride Cymru 2020.

Cynnydd yn nifer yr achosion Covid-19 yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg

Bu cynnydd yn y dyddiau diwethaf yn nifer gyfartalog yr achosion positif o COVID-19 yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, gyda chynnydd amlwg yng Nghaerdydd ei hun.

Y gyfradd heintio bresennol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg yw 10.9 fesul 100,000 o bobl, yr uchaf ers dechrau mis Mehefin.

Er y disgwylir amrywiadau dyddiol yn y ffigurau, mae nifer yr achosion newydd yng Nghaerdydd, dros y 7 diwrnod diwethaf, wedi codi i 14.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Mae'r cynnydd hwn wedi gweld niferoedd yr achosion lleol yn symud o fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd yn Lloegr i fod yn uwch na'r cyfartaledd (y cyfartaledd yn Lloegr yw 11.9 fesul 100,000 o bobl ar 18 Awst).

O fewn hyn, mae cyfradd y profion sy'n cael canlyniad positif hefyd wedi cynyddu, o 0.3% ar ddechrau mis Awst i 2.5% ar 22 Awst.

Mae'r ffigurau diweddaraf, a rennir gan bartneriaeth Profi, Olrhain, Diogelu Caerdydd a'r Fro, hefyd yn dangos cynnydd yn nifer yr achosion ymhlith oedolion yn eu 20au a'u 30au.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24593.html

Rydyn ni eisiau clywed eich barn am barcio beiciau yng Nghaerdydd

Gyda mwy o bobl yn dewis beicio yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad ar barcio beiciau yng nghanol y ddinas, i fanteisio ar y ddarpariaeth bresennol yn ogystal â nodi lleoliadau newydd i bobl gloi eu beic yn ddiogel.

Er mwyn cynorthwyo'r Cyngor yn yr adolygiad hwn, lluniwyd arolwg byr fel y gall y cyhoedd ddweud eu barn - https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=159653507755

Yn gynharach eleni, cyflwynodd y Cyngor ei weledigaeth ar gyfer trafnidiaeth yn y ddinas drwy'r Papur Gwyn ar Drafnidiaeth. Rhan allweddol o'r weledigaeth hon yw gwella'r seilwaith ar gyfer beicio a cherdded.

Yn ogystal â darparu llwybrau diogel i feicwyr deithio, rhaid darparu digon o le i barcio beiciau er mwyn gwneud i feicwyr deimlo'n hyderus y gallant barcio eu beiciau'n ddiogel pan fyddant yn cyrraedd pen eu taith.

Bydd yr holl adborth a dderbynnir drwy'r arolwg yn cael ei asesu a bydd yn llywio'r adolygiad a gynhelir.

I lenwi'r arolwg, cliciwch ar y ddolen ganlynol:
https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=159653507755

Mae Gofal Maeth Caerdydd yn falch o gefnogi Wythnos Fawr Ar-lein Pride Cymru 2020

Mae Gofal Maeth Caerdydd yn noddi Wythnos Fawr Ar-lein Pride Cymru 2020 (24-30 Awst) gyda'r digwyddiad eleni yn canolbwyntio ar y thema 'Eich Balchder'.

Oherwydd canllawiau COVID-19 y Llywodraeth ni fydd Pride Cymru yn cael ei gynnal fel arfer ond bydd yn parhau i ddathlu amrywiaeth drwy gyfres o ddigwyddiadau a sesiynau cydweithio ar-lein i godi ymwybyddiaeth o bynciau sy'n effeithio ar bobl LHDT+ ledled Cymru. Ewch i Pride Cymru <https://www.pridecymru.com/> am ragor o wybodaeth.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24596.html